# Gwirio Cymwysterau

Er mwyn i ymgeiswyr gofrestru'n llwyddiannus ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd, rhaid gwirio'r holl gymwysterau a gwblhawyd, gan gynnwys TGAU.

Gwirio yw'r broses o gadarnhau dilysrwydd y cymwysterau y mae cynnig am le yn amodol arnynt. Mae hyn yn sicrhau bod pob myfyriwr yn bodloni'r gofynion academaidd ar gyfer astudio yn y Brifysgol ac yn helpu i ddiogelu uniondeb a gwerth ein cyrsiau.

## *Pryd y Caiff Cymwysterau eu Gwirio*

Mae cymwysterau fel arfer yn cael eu gwirio fel rhan o'r broses ymgeisio. Ni fydd ymgeiswyr fel arfer yn cael cynnig Diamod nes bod eu cymwysterau wedi'u gwirio. Os caiff cynnig Diamod ei roi cyn i'r gwirio gael ei gwblhau, ni chaniateir cofrestru nes bod yr holl gymwysterau wedi'u cadarnhau.

## *Sut y Caiff Cymwysterau eu Gwirio*

### Ymgeiswyr Israddedig

Mae Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn derbyn y rhan fwyaf o gymwysterau Lefel 3 y DU – gan gynnwys Safon Uwch ac UG, BTEC, Bagloriaeth Sgiliau Uwch Cymru, cymwysterau 'Highers' ac 'Advanced Highers' yr Alban, Tystysgrif Ymadael Iwerddon a Diplomâu OCR – gan UCAS drwy'r cyrff dyfarnu perthnasol yn ystod cyfnod arholiadau'r haf.

Mae UCAS yn gofyn i ymgeiswyr ddarparu eu Rhif Dysgwr Unigryw (ULN), sy'n cael ei roi gan ysgol neu goleg. Mae hyn yn caniatáu i brifysgolion wirio cymwysterau drwy'r Cofnod Dysgu Personol, ar yr amod nad yw'r ymgeisydd wedi optio allan o rannu'r wybodaeth hon.

Os nad ydych wedi cynnwys eich ULN ar eich cais UCAS, anfonwch e-bost at holiderbyniadau@metcaerdydd.ac.uk. Os ydych chi wedi optio allan o rannu eich Cofnod Dysgu Personol, bydd angen i chi fewngofnodi i'ch cyfrif a diweddaru'ch dewisiadau.

Os nad oes gennych rif ULN, bydd angen i chi anfon tystiolaeth o'ch cymwysterau i'r Uned Derbyniadau. Cyfeiriwch at yr adran Derbyn Cymwysterau am arweiniad.

Pan na dderbynnir canlyniadau trwy UCAS ac na allwn wirio cymwysterau yn electronig, bydd gofyn i ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth ddogfennol o gyflawniad.

Rhaid i Brifysgol Metropolitan Caerdydd weld yr holl gymwysterau erbyn 31 Awst yn y flwyddyn derbyn.

Ar gyfer ymgeiswyr hwyr, rhaid darparu cymwysterau erbyn dyddiad dechrau'r cwrs fan bellaf.

## Ymgeiswyr Ôl-raddedig

Ar gyfer myfyrwyr Prifysgol Metropolitan Caerdydd sy'n symud ymlaen yn uniongyrchol o radd israddedig i gwrs ôl-raddedig, caiff cymwysterau eu cadw ar gofnod y myfyriwr ac nid oes angen eu hailgyflwyno.

Ar gyfer graddedigion o brifysgolion y DU o 2017 ymlaen, gellir gwirio dyfarniadau gradd gan ddefnyddio'r Adroddiad Cyflawniad Addysg Uwch (HEAR) drwy wasanaeth Gwirio'r Brifysgol. Unwaith y bydd eich dogfennau ar gael, cewch wahoddiad i gofrestru ar gyfer cyfrif Gwirio.

Gall ymgeiswyr roi mynediad trydydd parti i Brifysgol Metropolitan Caerdydd am gyfnod penodol, gan ganiatáu mynediad diogel at gofnod digidol o gyflawniadau wedi'u dilysu. I wneud hyn, mewngofnodwch i'ch cyfrif Gwirio, dewiswch yr adran Cysylltiadau ar y dangosfwrdd ac ychwanegwch Brifysgol Metropolitan Caerdydd.

Rhaid gwirio pob cymhwyster ar gyfer mynediad ôl-raddedig erbyn dyddiad dechrau'r cwrs. Os na ellir gwirio yn electronig, rhaid i ymgeiswyr gyflwyno dogfennau'n uniongyrchol i'r Swyddog Derbyn.

## *Derbyn Cymwysterau*

Rydym yn derbyn copïau neu dystysgrifau gwreiddiol. Gall dogfennau gael eu:

- Cyflwyno yn bersonol yn y parth-g ar gampws Llandaf neu gampws Cyncoed
- Sganio neu eu hanfon drwy e-bost at holiderbyniadau@metcaerdydd.ac.uk
- Postio i'r Swyddfa Dderbyn

Os caiff dogfennau gwreiddiol eu hanfon drwy'r post, rydym yn argymell defnyddio dosbarthiad cofnodedig. Bydd y pob dogfen wreiddiol yn cael ei dychwelyd trwy ddosbarthiad cofnodedig.

Os nad oes tystysgrifau ar gael, gellir derbyn Datganiad o Ganlyniadau. Rhaid i hyn gynnwys llofnod gwreiddiol a stamp swyddogol gan yr ysgol neu'r coleg dyfarnu. Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i ofyn am ddogfennau gwreiddiol neu i gysylltu â'r ysgol neu'r coleg yn uniongyrchol am gadarnhad.

Os na ellir darparu ULN, tystysgrif na Datganiad o Ganlyniadau, efallai y byddwn yn derbyn:

- Llythyr gan ysgol neu goleg yr ymgeisydd ar bapur pennawd swyddogol gyda llofnod gwreiddiol
- Cadarnhad trwy e-bost gan ysgol neu goleg, lle gellir gwirio bod gan yr anfonwr awdurdod i gadarnhau cyflawniad

Gall ymgeiswyr hefyd ofyn am Ddatganiad Ardystio Canlyniadau neu Lythyr Cadarnhad gan y corff dyfarnu perthnasol. Mae ffioedd fel arfer yn daladwy, a gall gymryd hyd at ddau fis i brosesu.

## *Tystysgrifau neu Drawsgrifiadau nad ydynt yn Saesneg*

Os yw tystysgrifau neu drawsgrifiadau yn cael eu cyhoeddi mewn iaith heblaw Saesneg, rhaid darparu cyfieithiadau Saesneg swyddogol wedi'u dilysu. Mae angen cyfieithiadau swyddogol hefyd i fodloni rheoliadau fisâu'r DU.

Rhaid cynhyrchu cyfieithiadau ar bapur pennawd swyddogol a chadarnhau bod y ddogfen yn gyfieithiad

gwir a chywir o’r gwreiddiol. Rhaid i bob cyfieithiad gynnwys:

- Enw’r cyfieithydd neu’r cwmni cyfieithu a manylion cyswllt
- Cymwysterau neu achrediad y cyfieithydd neu’r cwmni
- Dyddiad y cyfieithiad
- Enw llawn a llofnod y cyfieithydd, neu enw llawn a llofnod cynrychiolydd awdurdodedig y cwmni cyfieithu

Rhaid i gyfieithiadau gael eu cwblhau gan wasanaeth cyfieithu proffesiynol neu gyfieithydd achrededig. Derbynnir cyfieithiadau gan asiantau dim ond os yw’r asiant yn cynnig gwasanaeth cyfieithu cydnabyddedig a bod gan y cyfieithydd gymwysterau priodol (e.e., NAATI, CATI neu NAETI). Ni ystyrir modiwlau iaith Saesneg a astudir fel rhan o radd (e.e., TEM-4 neu TEM-8) yn gymwysterau cyfieithu dilys.

## *Dogfennaeth Na Chaiff ei Derbyn*

Ni chaiff y dogfennau canlynol eu derbyn oni bai eu bod yn dod gyda llofnod gwreiddiol a stamp swyddogol gan y sefydliad cyhoeddi:

- Dogfennau wedi’u hargraffu o borth sefydliadol neu fyfyrwyr, oni bai eu bod wedi’u gwirio neu eu hanfon yn uniongyrchol gan y sefydliad dyfarnu
- Dogfennau SIMS o ysgol neu goleg, oni bai eu bod wedi’u gwirio neu eu hanfon yn uniongyrchol gan yr ysgol neu’r coleg
- Taflenni canlyniadau a gynhyrchir gan ysgol neu goleg, oni bai eu bod wedi’u gwirio neu eu hanfon yn uniongyrchol gan yr ysgol neu’r coleg

Ni fydd dogfennau nad ydynt yn cynnwys enw llawn yr ymgeisydd yn cael eu derbyn.

## *Newid Enw*

Os oes enw neu sillafiad gwahanol ar y cymhwyster, rhaid darparu tystiolaeth swyddogol o’r newid enw. Gall hyn gynnwys tystysgrif briodas, tystysgrif geni, tystysgrif mabwysiadu, gweithred newid enw neu affidafid. Os nad oes dogfennaeth swyddogol ar gael, efallai y byddwn yn derbyn cadarnhad gan ysgol neu goleg sy’n profi’n glir bod y cofnodion yn ymwneud â’r un unigolyn.

## *Wythnos Sefydlu a Chofrestru*

Os nad yw’r cymwysterau gofynnol wedi’u cadarnhau trwy’r gwiriadau derbyn a chydymffurfiaeth cyn dechrau’r cwrs, gan gynnwys cyn yr Wythnos Sefydlu, efallai na fydd myfyrwyr yn gallu casglu eu cardiau adnabod nes bod y gwiriad wedi’i gwblhau.